# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 20 MEHEFIN 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Sean Bibby a Carol Ellis.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelod lleol:
Y Cynghorydd Carolyn Thomas – ar gyfer eitem 6.1 (057943) ar y rhaglen.

**HEFYD WRTH LAW:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch gyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod wedi derbyn hysbysiad fod y Cynghorydd Carolyn Thomas yn dymuno siarad ar eitem 6.1 (057943) ar y rhaglen.

## 8. DATGAN CYSYLLTIAD

Ynglŷn ag eitem 6.1 (057943) ar y rhaglen, eglurodd y Cynghorydd Kevin Hughes ei fod wedi siarad ag aelod o deulu'r ymgeisydd ynglŷn â'r dogfennau gofynnol, a holodd a oedd angen iddo ddatgan cysylltiad o'r herwydd. Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr nad oedd unrhyw fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan.

## 9. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

**http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4147&Ver=4&LLL=0**

Planning Committee 20.06.18 Late Observations

## 10. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2018.

Cywirdeb

Gofynnodd yr Uwch Gyfreithiwr am ddiwygio'r rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol, gan nad oedd ef yn y cyfarfod, fel y byddai'r cofnodion yn cyfeirio at y 'Cyfreithiwr' yn hytrach na'r 'Uwch Gyfreithiwr'.

Ar dudalen 5, dylid diwygio'r cofnodion i nodi fod y Pwyllgor wedi trafod eitem frys cyn penodi'r Cynghorydd Richard Lloyd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Tudalen 7, Eitemau i'r gohirio. Dylid diwygio'r cofnodion fel eu bod yn dweud y canlynol:

**Eitem 6.1 - Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl ar Megs Lane, Bwcle (057056)**

Dywedodd y Prif Swyddog mai'r argymhelliad oedd gohirio'r eitem uchod. Dywedodd hefyd y tynnwyd yr eitem ganlynol yn ôl:

**Eitem 6.2 – Cais Amlinellol i Adeiladu annedd yn Bayonne, Hafod Road, Gwernaffield (058124)**

Cynigiodd y Cynghorydd Jones bod yr eitem yn cael ei gohirio a chafodd ei eilio a'i gytuno gan y Pwyllgor.

Ar dudalen 9, eitem 058124, dylid diwygio'r Penderfyniad i adlewyrchu'r ffaith y tynnwyd y cais yn ôl.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 11. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) nad oedd y swyddogion wedi argymhell gohirio unrhyw rai o'r eitemau ar y rhaglen.

## 12. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

## 13. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd naw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac un aelod o'r wasg.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 2.50 pm)

……………………………………………
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 20 MEHEFIN 2018**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057943 | Cyngor Cymuned Treuddyn | Cais Amlinellol – i godi annedd unllawr y tu cefn i Acrefield yn Acrefield, Erw Ffynnon, Stryd y Frenhines, Treuddyn. | Siaradodd Ms. L Murtagh yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Thomas, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais hefyd. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058108 | Cyngor Cymuned Higher Kinnerton | Cais Llawn - Codi cyfarpar campfa yn yr awyr agored gyda llain galed darmac gysylltiedig ar Main Road, Higher Kinnerton. | Siaradodd Mr. I. Brackenbury yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn ogystal â'r amod ychwanegol a bennodd y Pwyllgor ynglŷn â draenio dŵr wyneb. |
| 057726 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn – Codi adeilad i ddarparu ar gyfer swyddfeydd, gweithdai a storio, adeiladu ardaloedd storio allanol a man parcio ceir ar Globe Way, Bwcle. | Gwrthododd yr ymgeisydd wahoddiad i siarad ar y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn ogystal â'r amod ychwanegol a bennodd y Pwyllgor ynglŷn â diogelu'r hawl tramwy cyhoeddus. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| **APÊL** | | | **NODWYD** | |
| 053163 | | Adroddiad Materion Cyffredinol – Apeliadau yn y Llys Apêl a ddaeth gan Gyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys i ddileu caniatâd cynllunio dros dro'r Cyngor mewn perthynas â thir fel llety safle preswyl sipsi yn Dollar Park, Ffordd Bagillt, Treffynnon. | | |
| 056694 | | Apêl gan The Strategic Land Group & Green Gates Homes (NW) Ltd yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i adeiladu 32 annedd gan gynnwys pwynt mynediad newydd i gerbydau, man agored cyhoeddus, gofodau parcio a thirlunio ar dir ar Ffordd Penarlâg, Penyffordd - **CANIATEIR**. | | |
| 055590 | | Apêl gan Redrow Homes NW yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i godi 186 annedd a | | |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | datblygiad atodol yn Chester Road, Penymynydd - **CANIATAWYD** | | |